

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

Chwefror 2022

## 1. Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

1. Cyflwynwyd Bil Cenedligrwydd a Ffiniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ("y Bil") yn Senedd y Deyrnas Unedig ar 6 Gorffennaf 2021. Dywedir yn nodiadau esboniadol y Bil mai ei nod yw:

*"- increase the fairness of the system to better protect and support those in need of asylum;*

*- deter illegal entry into the United Kingdom, thereby breaking the business model of people smuggling networks and protecting the lives of those they endanger; and*

*- remove more easily those with no right to be in the UK".<sup>1</sup>*

2. Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys 'cymal dalfan' yng nghymal 58, mewn perthynas ag asesu oedran. Ar 4 Tachwedd, yn ystod y Cam Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, cytunwyd ar welliannau i ddisodli'r cymal 58 gwreiddiol gyda chymalau newydd 48-56.

3. Er bod mwyafrif helaeth y Bil yn ymdrin yn bennaf â mewnfudo a materion cysylltiedig, sydd y tu allan i gwmpas pwerau'r Senedd, mae cymalau 48-55 (ac eithrio cymal 50), yn ymwneud ag asesu oedran plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches a chymal 80 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol)<sup>2</sup> yn effeithio ar y maes gofal cymdeithasol nad yw'n cael ei gadw yn ôl, ac felly mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

<sup>1</sup> Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau: [Nodiadau Esboniadol](#)

<sup>2</sup> Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol disgrifir y cymal hwn fel cymal 79. Fodd bynnag, ar ôl i welliannau gael eu gwneud i'r Bil yn y Cam Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, fe'i hailrifwyd fel cymal 80.



## 2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

### Cefndir

4. Ar 6 Rhagfyr 2021, gosododd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol femorandwm cydsyniad deddfwriaethol<sup>3</sup> ar gyfer y Bil<sup>4</sup> gerbron y Senedd.
5. Cyfeiriwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau gwreiddiol o 10 Chwefror 2022 ar gyfer adrodd. Mewn ymateb i gais ar y cyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cytunodd y Pwyllgor Busnes wedi hynny i ymestyn y dyddiad cau i 17 Chwefror. Fodd bynnag, yn dilyn hysbysiad gan Lywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu trefnu'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer 15 Chwefror, ar 25 Ionawr newidiodd y Pwyllgor Busnes y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i 15 Chwefror.

### Ein dull craffu

6. Bu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystyried eu dulliau o graffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn eu cyfarfodydd ar 13 Ionawr 2022 a chytunwyd i ysgrifennu ar y cyd at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y materion a godwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Roedd hyn yn cynnwys cyrff y GIG, colegau brenhinol perthnasol a chynrychiolwyr awdurdodau lleol. Mae rhestr lawn o'r ymgylgoreion, ynghyd â'n llythyrau, a'r ymatebion a gawsom, ar gael ar wefan y Senedd.<sup>5</sup>
7. Fe wnaethom drafod yr ymatebion a ddaeth i law yn ein cyfarfod ar 10 Chwefror 2022.
8. Rydym yn cydnabod bod pryderon sylweddol ymhlith rhanddeiliaid mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r broses asesu oedran. Fodd bynnag, yn unol â'n cylch gwaith, rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar y goblygiadau i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y mae ei gylich gwaith yn cynnwys materion sy'n ymwneud

---

<sup>3</sup> [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau](#)

<sup>4</sup> [Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau](#)

<sup>5</sup> [Senedd Cymru: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau](#)

---

â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Byddem yn annog yr Aelodau i roi ystyriaeth ofalus i unrhyw farn a fynegwyd gan y Pwyllgor hwnnw ynghylch hawliau plant a diogelu.

## Trosolwg

**9.** Mae paragraffau 6 i 8 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 9 i 11 yn amlinellu'r darpariaethau yn y Bil mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Rydym yn archwilio materion sy'n ymwneud â'r darpariaethau hyn drwy gydol ein hadroddiad.

## Safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**10.** Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer unrhyw gymal yn y Bil:

*"Almost all of the provisions in the Bill deal with matters that are reserved to the UK Parliament and therefore extend and apply across the UK. The remainder apply to England and Wales only, either because they amend legislation that itself only applies and extends to England and Wales or because they deal with a policy area that is within the legislative competence of the Scottish Parliament or the Northern Ireland Assembly but not within the legislative competence of Senedd Cymru [...]"*

*None of the provisions in the Bill involve Westminster legislating for a matter that is within the legislative competence of a devolved legislature, and so the consent of devolved legislatures is not required under the Sewell Convention."<sup>6</sup>*

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**11.** Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys arfer swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol Cymru. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, felly, yn nodi mai barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y darpariaethau isod oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau maent yn ymwneud â phenderfyniadau a wneir gan awdurdodau datganoledig Cymru o dan gymal 49(2)(a).

---

<sup>6</sup> Llywodraeth y Deyrnas Unedig, '[Nationality and Borders Bill: Explanatory Notes](#)', Rhagfyr 2021, tudalen 16

**12.** At hynny, nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol na all Llywodraeth Cymru argymhell caniatâd:

*"Fel y nodir ym mharagraffau 16-38 uchod, mae'r Bil yn gwneud darpariaethau o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd ac felly mae angen cydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, ni allaf argymhell bod y Senedd yn cydsynio â chynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil am nad wyf o'r farn ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth hon gael ei gwneud mewn perthynas â gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y Bil hwn."*<sup>7</sup>

**13.** Mewn llythyr i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dyddiedig 3 Chwefror 2022, dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon dro ar ôl tro ynghylch effaith y Bil ar Gymru a'i bod wedi gofyn am fanylion y cymalau sy'n ymwneud ag asesu oedran o fis Mai 2021 ymlaen, heb lwyddiant:

*"The UK Government has provided no satisfactory assurances and no amendments have been tabled to address the concerns raised by the Welsh Government. The UK Government has maintained its position that the entirety of the Nationality and Borders Bill relates to reserved areas of policy, despite the Bill making provision concerning local authority decisions as to whether and how to exercise functions under "relevant children's legislation."*<sup>8</sup>

## Ein barn ni

**14.** Rydym yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru bod y Bil yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd, ac felly bod angen cydsyniad y Senedd.

**15.** Rydym hefyd yn pryderu nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymateb yn adeiladol i'r materion a godwyd gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig lle mae darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â meysydd o gyfrifoldeb datganoledig.

---

<sup>7</sup> *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau*

<sup>8</sup> Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 3 Chwefror 2022

### 3. Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

#### Asesiadau oedran

**16.** Mae Rhan 4 o'r Bil (cymalau 48-56) yn ymwneud ag asesiadau oedran. Cynhelir asesiadau oedran yn bennaf i benderfynu a all (neu na all) rhywun gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol i blant. Mae rhan 4 yn berthnasol i unigolion sy'n ceisio lloches sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig ar eu pen eu hunain heb ddogfennaeth i ddangos tystiolaeth o'u hoedran.

**17.** Ar hyn o bryd, os oes amheuaeth ynghylch oedran plentyn, cynhelir asesiad gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn wedi 'cyrraedd' ac felly mae'r penderfyniad ynghylch oedran yn cael ei wneud ar lefel ddatganoledig. Mae'r Bil yn cynnig newid y broses hon i greu system ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan sy'n cynnwys:

- Sefydlu Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran.
- Yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael grym i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r gweithdrefnau i'w dilyn yn y broses o asesu oedran.
- Defnyddio 'dulliau gwyddonol' i bennu oedran.
- Cynigion i ddiwygio trefniadau apelio.

#### Amcan datganoledig Llywodraeth y Deyrnas Unedig

---

**18.** Amcan datganoledig Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw ceisio cryfhau'r fframwaith ar gyfer pennu oedran. Ei barn yw y bydd hyn yn sicrhau y gellir adnabod plant agored i niwed y mae angen cymorth arnynt yn gyflym, a mynd i'r afael â'r risgiau diogelu sy'n gysylltiedig ag achosion pan fydd oedolion yn honni eu bod yn blant. Mewn datganiad yn y cyfryngau, dywedodd y Swyddfa Gartref y byddai cyngor y Pwyllgor Cyngori Gwyddonol ar ffyrdd o asesu oedran yn:

*"...help ensure asylum seeking adults posing as children do not get access to support they are not entitled to, and remove the safeguarding risks of adults being wrongly placed in children's care system."*

**19.** Aethpwyd ymlaen i ddweud:

*"[UK] Government reforms will bring the UK's age checking policy in line with other countries. Scientific methods are used by most European countries, who primarily use X-ray scans, and sometimes CT scans and MRI imaging to view key parts of the body.*

*[...]*

*This is a significant issue. In the 12 months up to September 2021, of the 1,696 resolved age dispute cases in which an individual's claim to be a child is disputed, around two thirds were found to be adults."*<sup>9</sup>

**Safbwynt polisi Llywodraeth Cymru**

---

**20.** Mae paragraffau 13 a 14 y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi safbwynt polisi Llywodraeth Cymru, gan ddatgan:

*"13. ...yn ein hymateb i 'Gynllun Newydd ar gyfer Mewnfudo' Llywodraeth y DU, mae ein safbwynt polisi'n deillio o gydymffurfiaeth â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, i weithredu er budd gorau plant. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r gofynion sydd ar awdurdodau lleol wrth bennu a oes gan blant anghenion gofal a chymorth y mae angen eu diwallu.*

*14. Mae'r Senedd eisoes wedi deddfu'n unol â hyn er mwyn sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu, ac nid ydym yn cytuno y dylai Llywodraeth y DU allu tanseilio cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy ei gwneud yn ofynnol i atgyfeirio plant y ceir amheuaeth ynghylch eu hoedran at bartion eraill i wneud penderfyniadau yn eu cylch, neu i orfodi'r defnydd o dystiolaeth neu dulliau asesu oedran nad ystyrir yn arfer gorau yng Nghymru."*<sup>10</sup>

**21.** Yn ei llythyr dyddiedig 3 Chwefror 2022, mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn nodi:

---

<sup>9</sup> [Home Office to introduce scientific methods for assessing the age of asylum seekers: 5 Ionawr 2022](#)

<sup>10</sup> [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau](#)

---

*"This Bill introduces an additional statutory process for age assessments for unaccompanied asylum seeking children in Wales which contradicts Welsh law, will cause confusion and potentially diminish the law as it stands in Wales."<sup>11</sup>*

## **Cymal 49: Unigolion sy'n destun rheolaethau mewnfudo: atgyfeirio neu asesu gan awdurdod lleol ac ati**

**22.** Mae cymal 49 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol atgyfeirio unigolyn y mae anghydfod ynghylch ei oedran at yr 'unigolyn dynodedig' (y Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran) ar gyfer asesiad oedran, cynnal yr asesiad oedran ei hun, neu roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig ei fod wedi ei fodloni bod yr unigolyn wedi cyrraedd yr oedran y mae'n honni (neu yr honnir) yw ei oedran.

**23.** Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n gosod swyddogaethau ar awdurdodau datganoledig Cymru. Nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mai barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth hon oherwydd ei bod yn effeithio ar y maes gofal cymdeithasol datganoledig ac yn gosod swyddogaethau ar awdurdodau datganoledig Cymru.

## **Rhyngweithio â'r ymrwymiad i Gymru fod yn genedl noddfa**

**24.** Mynegodd nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaethau Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru, a Chonffederasiwn GIG Cymru bryderon ynghylch effaith y Bil ar allu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i weithredu'r polisiau sy'n ategu'r weledigaeth o Genedl Noddfa. Dywedodd Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru:

*"In broad terms, the Bill [...] risks undermining the compassion that Welsh Government have committed to, for Wales to be a nation of sanctuary for all asylum-seeking people."<sup>12</sup>*

## **Yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau**

**25.** Dywedodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, nad oedd yn glir pa bwerau fyddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n cynnwys meysydd sydd wedi eu datganoli i Gymru, gan gynnwys iechyd, llywodraeth leol a gwasanaethau cymdeithasol.

<sup>11</sup> Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: 3 Chwefror 2022

<sup>12</sup> LCM NBB 05: NYAS Cymru

Pwysleisiwyd mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gymorth a gofal i blant ac oedolion sy'n ceisio noddfa yng Nghymru, gydag asesiad oedran yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan y gwasanaethau cymdeithasol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 (Deddf 2014). Dywedodd Plant yng Nghymru, gyda (ac ar ran) grŵp Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

*"The application of the age assessment process in Wales is undertaken by children's social services, informed by case law and underpinned by existing duties prescribed by Welsh legislation, most notably the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. All persons determined to be children are granted looked after status, and should have access to a range of care and support services to aid recovery and the statutory entitlements that this status offers."<sup>13</sup>*

**26.** Mewn cyflwyniad ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Phenaeithaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan, dywedwyd er nad yw Deddf 2014 yn nodi dyletswydd i asesu oedran, ei bod yn gosod cyfrifoldeb clir a dyletswyddau cyfreithiol i asesu cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau plant a chymorth i gyflawni eu hanghenion a diogelu a hybu llesiant y plentyn:

*"Given the devolved nature of health and social care in Wales our view is that the Bill confers power on the Secretary of State to make regulations imposing functions on devolved Welsh authorities which could potentially undermine the requirements placed on Welsh local authorities set out in the SSWBA, thereby treating asylum seeking children differently to other children in Wales. The full devolvement of social services functions to Wales does not appear to have been considered, with no specific proposals about the representation of Wales or the impact of decision-making on Welsh devolved services.*

*We believe that it is not in the competence of the UK Government to designate other bodies to do an assessment that would interfere with the Welsh Government competence in social care, as set out in the SSWB Act 2014, without consent. This would not change regardless of the method of identification of age."<sup>14</sup>*

---

<sup>13</sup> LCM NBB 11: Grŵp Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru

<sup>14</sup> LCM NBB 06: Iechyd Cyhoeddus Cymru

---



**27.** Pwysleisiodd Conffederasiwn GIG Cymru yr angen am sgysiau rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i benderfynu lle mae'r Bil hwn yn croesi i feysydd cymhwysedd datganoledig, y disgwyliadau y gellir eu gosod ar weision cyhoeddus Cymru, a'r rhyngwyneb â deddfwriaeth bresennol Llywodraeth Cymru; sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.<sup>15</sup>

### **Cwmpas y Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran**

---

**28.** Dywedir yn Nodiadau Esboniadol y Bil mai'r bwriad yw y bydd sefydlu'r bwrdd yn sicrhau mwy o gysondeb o ran ansawdd yr asesiadau ac yn lleihau'r cymhellion i oedolion ddarparu oedrannau anghywir. Wrth wneud hynny, bydd yn ceisio lleihau baich ariannol a gweinyddol ar awdurdodau lleol wrth gynnal asesiadau a sicrhau bod oedrannau'r bobl hynny'n cael eu cofnodi'n gywir at ddibenion eu cais mewnfudo neu loches.<sup>16</sup>

**29.** Bydd awdurdodau lleol yn cadw'r hawl i gynnal asesiadau oedran eu hunain os yw'n well ganddynt wneud hynny.

**30.** Nodir ym mharagraff 12 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

*"Yn dilyn y cyfarfod rhwng ein swyddogion a swyddogion y Swyddfa Gartref ar 27 Mai, deallwn y bydd yr NAAB yn gorff sy'n gymwys i Loegr yn unig. Serch hyn, rydym o'r farn ei bod yn bwysig rhoi sylwadau ar y cynnig. Ni roddir llawer o wybodaeth am gyfansoddiad na swyddogaethau'r NAAB. Unwaith eto, ymddengys nad ystyriwyd datganoli swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn llwyr i Gymru gan nad oes unrhyw gynigion penodol am gynrychioli Cymru (na'r Alban a Gogledd Iwerddon).<sup>17</sup>*

**31.** Cytunodd rhanddeiliaid nad oedd llawer o gydnabyddiaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o'r ffaith bod gofal cymdeithasol wedi ei ddatganoli a bod asesiadau oedran eisoes wedi eu sefydlu yng Nghymru. Dywedodd nifer o dystion, gan gynnwys lechyd Cyhoeddus Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru a Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru y byddai angen trafodaethau manwl rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ynghylch sut byddai unrhyw Fwrdd yn Lloegr yn unig yn ymgysylltu â Chymru ac yn ystyried y meysydd sydd wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru sy'n hanfodol i unrhyw broses asesu, ni waeth pwy sy'n ymgymryd â hi:

---

<sup>15</sup> LCM NBB 10: Conffederasiwn GIG Cymru

<sup>16</sup> Llywodraeth y Deyrnas Unedig, **Nationality and Borders Bill: Explanatory Notes**<sup>1</sup>, Rhagfyr 2021, tudalen 59

<sup>17</sup> Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

---

*"The establishment of the Board will require consultation with partners, including the Welsh Local Government Association, Health Boards, Public Health Wales, third sector providers etc. The impact of not doing so carries the risk of establishing a different approach to the consideration of asylum applications in England to Wales, in relation to the definition of how age is assessed."*<sup>18</sup>

## **Llywodraethiant, atebolrwydd a rôl y Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran**

---

**32.** Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw hefyd at y diffyg manylion sydd yn y Bil ynghylch swyddogaeth, pŵer, cyfansoddiad ac annibyniaeth y Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran. Dywedodd Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS) Cymru ei fod yn bryderus ynghylch diffyg tryloywder ac atebolrwydd y Bwrdd, gan gynnwys i Lywodraeth Cymru neu bwyllgorau'r Senedd. Dywedodd fod lefelau annibyniaeth ar y Swyddfa Gartref yn y broses hefyd yn aneglur ar hyn o bryd.

**33.** Cododd NYAS Cymru bryderon hefyd y byddai'r Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran arfaethedig yn gallu gwrthod asesiad oedran awdurdod lleol a chynnal ei asesiad oedran ei hun pe bai'n ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol (neu unigolyn dynodedig ar eu rhan), yn hytrach na dim ond gweithredu mewn modd cefnogol neu gynghorol i awdurdodau lleol:

*"We share the concerns of the British Association of Social Workers (BASW) that age assessments could be used as a political tool by the UK Government to order age assessments on persons who have attracted media attention."*<sup>19</sup>

**34.** Yn eu cyflwyniad ar y cyd, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Phenathiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan yn codi pryderon tebyg ynghylch gallu'r Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran i gynnal asesiad oedran os oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol reswm i amau asesiad oedran a gynhaliwyd gan awdurdod lleol ar unigolyn y mae anghydfod ynghylch ei oedran neu bod rheswm i amau penderfyniad awdurdod lleol i beidio â chynnal asesiad oedran. Maent yn dadlau bod hwn yn bŵer eang iawn ac yn dadlau bod potensial iddo danseilio'r rôl hollbwysig mae gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol yn ei chwarae:

---

<sup>18</sup> LCM NBB 10: Conffederasiwn GIG Cymru

<sup>19</sup> LCM NBB 05: NYAS Cymru

*"It is essential that social workers are conducting age assessments using a multi-agency and holistic approach, which requires social work managers, legal teams and partner agencies to engage with the Welsh Government's Age Assessment Toolkit<sup>20</sup>. Social workers are best supported in their assessments when all participants in the age assessment process are knowledgeable and competent—this must be the focus rather than creating a system where one part can question the decisions made by other parts of the system."<sup>21</sup>*

**35.** Aethant ymlaen i ddweud, os yw'r Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran am fod yn rhan o weithrediaeth y Swyddfa Gartref, fod pryder ynghylch y didueddrwydd gofynnol wrth wneud penderfyniadau, a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd, yn enwedig yn dilyn dyfarniad diweddar yr Uchel Lys (MA a HT v Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref) lle dyfarnwyd bod proses y Swyddfa Gartref ar gyfer asesu oedran ceiswyr lloches ifanc wrth gyrraedd y Deyrnas Unedig yn anghyfreithlon:

*"It is a matter of great concern that the way in which the Home Office undertook such assessments [ ] was ruled unlawful, while at the same time seeking powers to set standards for age assessments across the UK through a NAAB. This does not inspire confidence in the revised age assessment policy and processes outlined in the New Plan for Immigration. Given that different legislation applies in Wales accompanied with specific guidance for councils on carrying out an age assessment, we believe that referrals to the National Age Assessment board should not be mandatory for councils in Wales."<sup>22</sup>*

**36.** Yn ei llythyr dyddiedig 3 Chwefror 2022, nododd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod pob plentyn sy'n ceisio lloches ar ei ben ei hun yng Nghymru yn cael ei drin fel plentyn sy'n derbyn gofal o dan Ran 6 o Ddeddf 2014, a thrwy hynny bod ganddo hawl i'r un gofal a chymorth â phob plentyn mewn gofal yng Nghymru.

**37.** Aeth yn ei blaen i ddweud:

---

<sup>20</sup> Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches: [Pecyn Cymorth Asesu Oedran](#)

<sup>21</sup> LCM NBB 13: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan

<sup>22</sup> LCM NBB 13: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan

*"There are stark differences in views between UK Government and Welsh Government about how age assessments should be conducted and by whom. For example, in Wales, we have an extant policy position on age assessment which does not recommend or support the use of medical examinations as determinants of age and considers such approaches morally wrong. The use of 'scientific methods' will potentially be a fundamental and perennial disagreement between the views of Welsh local authorities and the NAAB."<sup>23</sup>*

## **Effaith ar rôl gweithwyr cymdeithasol**

---

**38.** Cododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan bryderon y gallai'r Bil, fel y'i drafftwyd, danseilio'r rôl hollbwysig mae gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol yn ei chwarae. Maent yn dweud y dylid canolbwyntio ar arfogi gweithwyr cymdeithasol i gyflawni eu rôl yn dda gydag arweiniad, hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol. Ymhellach, maent o'r farn y gallai leihau rôl arweiniol, awdurdodol gweithwyr cymdeithasol, gyda'r potensial i arwain at swyddogion heb yr arbenigedd, y profiad, a'r sgiliau angenrheidiol i gynnal asesiadau, gan gynnwys asesiadau cryno:

*"This remains a considerable concern following the recent court case, rather than local authority's own social workers following nationally agreed approaches and good practice."<sup>24</sup>*

**39.** Yn ei llythyr dyddiedig 3 Chwefror 2022, dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol wedi eu datganoli'n llawn i'r Senedd, ac felly mae'r holl benderfyniadau deddfwriaethol a pholisi sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol yn perthyn i'r Senedd a Gweinidogion Cymru. Cytunodd â'r rhanddeiliaid y byddai'r Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran yn lleihau rôl arweiniol, awdurdodol gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru yn hyn o beth.<sup>25</sup>

---

<sup>23</sup> Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: 3 Chwefror 2022

<sup>24</sup> LCM NBB 13: WLGA, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan

<sup>25</sup> Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: 3 Chwefror 2022

---

## Ein barn ni

**40.** Rydym yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru bod y Bil yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd ac felly bod angen cydsyniad y Senedd.

**41.** Mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon sylweddol ynghylch lefel y manylion yn y Bil sy'n ymwneud â rôl y Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran, ei aelodaeth, llywodraethu, annibyniaeth ac atebolrwydd. Rydym yn cytuno â nhw fod angen trafodaethau manwl rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ynghylch sut bydd y Bwrdd yn ymgysylltu â Chymru ac yn ystyried y meysydd sydd wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru sy'n hanfodol i unrhyw broses asesu.

**42.** Mae rhanddeiliaid hefyd wedi codi pryderon ynghylch a fyddai'r darpariaethau yn y Bil yn tanseilio'r trefniadau sydd eisoes ar waith ar gyfer asesiadau oedran yng Nghymru.

**Casgliad 1.** Credwn na ddylai'r Senedd roi ei gydsyniad i gynnwys cymal 49 yn y Bil ar y sail bod prosesau eisoes ar waith ar gyfer asesiadau oedran yng Nghymru, a byddai perygl i'r Bil eu tanseilio.

**43.** Nodwn nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd. Rydym yn cydnabod, felly, ei bod yn bosibl, hyd yn oed os bydd y Senedd yn atal ei gydsyniad, y gallai'r Bil fynd rhagddo fel y'i drafftwyd. Ar y sail honno, mae'n bwysig ystyried beth gallai gweithredu'r ddarpariaeth hon ei olygu i Gymru.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol roi rhagor o wybodaeth am ba baratoadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau datganoledig Cymru ar gyfer gweithredu cymal 49 mewn perthynas â Chymru pe bai'r Bil yn cael ei basio fel y'i drafftwyd.

## Cymal 51: Defnyddio dulliau gwyddonol mewn asesiadau oedran

**44.** Mae cymal 51 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n pennu'r defnydd o ddulliau gwyddonol o asesu oedran, ac i benderfynwr allu dod i gasgliad hygredded negyddol yn sgil amharodrwydd i gydymffurfio â chais i gael prawf gwyddonol i asesu oedran, heb reswm da.

## Safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig

---

**45.** Mewn datganiad yn y cyfryngau i gyhoeddi sefydlu Pwyllgor Cynghori Gwyddonol i gynghori ar ddulliau asesu oedran, dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod dulliau gwyddonol yn cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill i asesu oedran:

*"For example, Finland and Norway take radiographs to examine the development of teeth and the fusion of bones in the wrist. In both countries, two certified experts will carry out the age assessment and must jointly agree on the person's age. In France, X-rays are taken to examine the fusion of the collar bone, alongside dental and wrist X-rays, while in Greece, dental X-rays are used alongside social worker assessments."*<sup>26</sup>

**46.** Nodwyd yn y datganiad y byddai'r Pwyllgor Cyngori Gwyddonol yn:

*"...looking at a range of scientific methods for estimating age, and will be considering their accuracy and reliability, as well as ethical and medical issues. They will report their findings directly to the Home Office Chief Scientific Adviser to support her in advising Ministers on appropriate scientific methods for age estimation".*<sup>27</sup>

## **Safbwynt Llywodraeth Cymru**

---

**47.** Nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mai barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth hon oherwydd ei bod yn effeithio ar y maes gofal cymdeithasol datganoledig ac yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n gosod swyddogaethau ar awdurdodau datganoledig Cymru.

**48.** Yn ei llythyr dyddiedig 3 Chwefror 2022, cadarnhaodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu defnyddio archwiliadau meddygol fel penderfynyddion oedran, gan fod y wyddoniaeth sy'n sail i bennu oedran yn amhendant ac yn aneglur:

*"Our view is that subjecting young people to often invasive medical examinations is morally wrong."*<sup>28</sup>

**49.** Dywedodd hefyd nad yw penderfyniadau asesu oedran a wneir at ddibenion mewnfudo yn rhwymo awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o dan gymal 53(5) o'r Bil mae penderfyniad gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar apêl yn rhwymol ar awdurdod lleol hyd yn oed pan fo'r apêl yn ymwneud â phenderfyniad gan y Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran at ddibenion mewnfudo:

---

<sup>26</sup> [Home Office to introduce scientific methods for assessing the age of asylum seekers: 5 Ionawr 2022](#)

<sup>27</sup> [Home Office to introduce scientific methods for assessing the age of asylum seekers: 5 Ionawr 2022](#)

<sup>28</sup> Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: 3 Chwefror 2022

*"This could lead to holistic and detailed assessments carried out in accordance with the Welsh Government Age Assessment Toolkit being overturned, on the basis of decisions which have been made based on evidence gathered using processes which are antithetical to the approach of the Toolkit, such as "scientific methods" which are highly contested and have wide margins of error. A Welsh local authority in such a position would be subject to two conflicting statutory duties.*

*The Bill will put the age assessment process on a separate statutory footing outside of the 2014 Act. A separate statutory footing which appears to be in conflict with the aims of the 2014 Act and the duty of local authorities under section 7(2) of that Act to have due regard to the UNCRC when exercising functions in relation to a child who may have needs for care and support."<sup>29</sup>*

## **Defnyddio dulliau gwyddonol wrth asesu oedran**

**50.** Cododd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Conffederasiwn GIG Cymru a Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru, bryderon ynghylch y defnydd o dulliau gwyddonol i bennu oedran. Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn dweud bod y defnydd o asesiad radiolegol yn 'anfanwl iawn'<sup>30</sup> a dim ond amcangyfrif o fewn dwy flynedd i'r naill gyfeiriad neu'r llall y gall roi, felly mae'n amhriodol defnyddio ymbelydredd ìoneiddio at y diben hwn.

**51.** Mae gan Gymdeithas Feddygol Prydain 'bryderon difrifol' bod y Bil yn agor y drws i ymbelydredd ìoneiddio gael ei ddefnyddio ar gyfer asesu oedran ceiswyr lloches.<sup>31</sup> Mae gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr bryderon hefyd, ac mae'n cefnogi'n gryf y farn na ddylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fod yn defnyddio technegau asesu oedran ar Blant sy'n Geiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain.

*"The use of ionising radiation for age assessment involves direct harms without any medical benefit to the individual and, as such, we do not believe it would be appropriate to expect doctors to participate in such a practice."<sup>32</sup>*

**52.** Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi dweud na fydd yn cefnogi dulliau 'gwyddonol' fel y'u gelwir<sup>33</sup> i asesu oedran nes bod tystiolaeth gymhellol ar gael:

<sup>29</sup> Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: 3 Chwefror 2022

<sup>30</sup> LCM NBB 08: Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

<sup>31</sup> LCM NBB 02: BMA Cymru

<sup>32</sup> LCM NBB 03: Coleg Brenhinol y Meddygon

*"Age assessment is an imprecise science and the benefit of the doubt must be granted, especially if welfare and access to essential services is to depend on this. Those who have been subject to stress/trauma with natural high steroid responses to these may appear older as impact on ageing process is accelerated. We have previously advised that methods such as dental examination, bone density and other previously suggested methods of scientific evaluation are not underpinned by robust and scientific evidence to merit an intervention that would be supported by Welsh partners."<sup>34</sup>*

**53.** Nodir yn y cyflwyniad ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan y gall asesiad oedran anghywir ar gyfer plentyn dan oed ar ei ben ei hun gael canlyniadau difrifol i'w ofal a chymorth a goblygiadau iechyd meddwl niweidiol, o ystyried y trawma y bydd y bobl ifanc hyn wedi ei wynebu yn eu gwledydd cartref, ac ar eu teithiau i'r Deyrnas Unedig:

*"Being subjected to intrusive methods of scientific age assessment, which does not provide an exact age, may be detrimental to their well-being, potentially unethical, and may not provide a 'silver-bullet' determination. An incorrect determination of the child as an adult will lead to young people being deprived of the support, care, and safeguarding procedures they are entitled to as children. Importantly, the significant margin of error in so-called scientific age assessment methods will increase the likelihood of children being detained in Immigration Removal Centres."<sup>35</sup>*

## Ein barn ni

**54.** Mae Pecyn Cymorth y cytunwyd arno'n genedlaethol eisoes ar waith yng Nghymru i gynorthwyo'r gwaith o gynnal asesiadau oedran. Nid yw'r Pecyn Cymorth yn argymhell nac yn cefnogi'r defnydd o archwiliadau meddygol fel penderfynyddion oedran, ac mae gweithwyr iechyd proffesiynol wedi dweud na fyddai'n briodol iddynt gymryd rhan mewn arferion o'r fath.

**55.** Nodwn fod gan y gweithwyr meddygol proffesiynol sydd wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig bryderon ynghylch y defnydd o 'ddulliau gwyddonol o asesu oedran' yn enwedig o

---

<sup>33</sup> LCM NBB 06: Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>34</sup> LCM NBB 06: Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>35</sup> LCM NBB 13: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan



ystyried y diffyg tystiolaeth o effeithiolrwydd gweithdrefnau o'r fath. Yn ogystal, mae gan ddulliau o'r fath lwfans gwallau eang, a gallant arwain at niwed - er enghraifft, o ganlyniad i ddefnyddio ymbelydredd ïoneiddio.

**Casgliad 2.** Credwn na ddylai'r Senedd gydsynio i gynnwys cymal 51 yn y Bil ar y sail bod rhanddeiliaid iechyd ac awdurdodau lleol wedi dweud wrthym nad oes tystiolaeth bod dulliau gwyddonol o asesu oedran yn effeithiol, ac felly nid ydym wedi ein hargyhoeddi y gellir cyfiawnhau cynnal gweithdrefnau meddygol a allai fod yn ymwthiol ar blant a phobl ifanc y gallai eu profiadau bywyd fod yn llawn trawma yn barod.

### **Cymalau 52-55 ac 80:**

**56.** Nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd bod cymalau 52-55 (yn ymwneud ag asesu oedran) ac 80 (yn ymwneud â darpariaeth drosiannol a chanlyniadol)<sup>36</sup> o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

- Mae cymal 52 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch y ffordd y cynhelir asesiadau oedran o dan gymalau 49 a 50.
- Mae cymal 53 yn darparu ar gyfer hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar gyfer unigolyn y mae anghydfod ynghylch ei oedran y penderfynwyd, yn dilyn asesiad oedran o dan Ran 4, fod ei oedran yn wahanol i'r hyn roedd yn honni oedd ei oedran.
- Mae cymal 54 yn manylu ar faterion gweithdrefnol mewn perthynas â darparu hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau asesu oedran pobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo.
- Mae cymal 55 yn manylu ar y broses ar gyfer asesu tystiolaeth newydd a all ddod i'r amlwg dim ond ar ôl i asesiad oedran gael ei wneud, gan gynnwys achosion lle mae'r unigolyn wedi bod drwy'r broses apelio.
- Mae cymal 80 yn darparu modd i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth drosiannol neu dros dro mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried yn briodol mewn perthynas â darpariaethau'r Bil hwn sy'n dod i rym. Mae is-adrannau 2 a 3 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaethau mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn eu bod yn briodol o ganlyniad i'r Bil. Caiff darpariaeth o'r fath ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw

---

<sup>36</sup> Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol disgrifir y cymal hwn fel cymal 79. Fodd bynnag, ar ôl i welliannau gael eu gwneud i'r Bil yn y Cam Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, fe'i hailrifwyd fel cymal 80.

---

ddeddfiad, gan gynnwys Mesur neu Ddeddf gan y Senedd ac unrhyw offeryn a wneir o dan Fesur neu Ddeddf gan y Senedd.

## Ein barn ni

**57.** Mae'r darpariaethau yng nghymalau 52-55 a chymal 80 yn rhoi effaith i'r darpariaethau o sylwedd yng nghymalau 49 a 51 sy'n ymwneud ag asesiadau oedran a'r defnydd o ddulliau gwyddonol wrth asesu oedran. Gan nad ydym yn cefnogi cynnwys cymalau 49 a 51 yn y Bil, nid ydym yn cefnogi cynnwys y cymalau hyn ychwaith.

**Casgliad 3.** Credwn na ddylai'r Senedd gydsynio i gynnwys cymalau 52-55 ac 80 yn y Bil.

## 4. Materion eraill

### Iechyd meddwl

**58.** Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (RCPsych) a Chymdeithas Feddygol Prydain (BMA) Cymru wedi codi pryderon ynghylch gallu ceiswyr lloches â phroblemau iechyd meddwl i gael mynediad at asesiadau a thriniaethau addas.

**59.** Dywed yr RCPsych:

*"...as a group, asylum seekers are an inherently vulnerable population, having fled persecution, conflict, and human rights violations. They are likely to have experienced adverse events and multiple traumatic bereavements and separations – both in their country of origin and during their journey to the UK. They have a high prevalence of mental health problems including trauma-related symptoms, post-traumatic stress disorder (PTSD), complex PTSD, depression, and anxiety disorders. Some are at high risk of self-harm and suicide, and substance misuse."*<sup>37</sup>

**60.** Ymhellach, mae'n dweud:

*"...it is likely that the proposed changes will adversely impact the mental health of a group of people with pre-existing vulnerabilities and complex needs. Such people are already more likely to experience discrimination and face barriers to accessing suitable*

---

<sup>37</sup> LCM NBB 01: Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

*mental healthcare services in a timely and appropriate manner. Together this would lead to an increase in morbidity across all settings.*<sup>38</sup>

**61.** Roedd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn cytuno â'r farn hon.

**62.** Yn ôl tystiolaeth y BMA, o dan y Bil mae ffoaduriaid sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig ar hyd llwybr afreolaidd mewn perygl o gael statws lloches dros dro. Byddai gan bobl â'r statws hwn hawliau cyfyngedig i setlo yn y Deyrnas Unedig ac i ailuno â theulu sy'n parhau i fod dramor. Byddai'r rhai sydd â statws amddiffyn dros dro hefyd o dan amodau Dim Hawl i Gael Arian Cyhoeddus (NRPF). Dywedodd fod tystiolaeth wedi dangos bod unigolion o dan amodau NRPF yn cael eu hatal rhag derbyn incwm a llety digonol, a all orfodi teuluoedd i sefyllfa o amddifadedd, gan waethygu anghydraddoldebau iechyd yn y Deyrnas Unedig ymhellach:

*"Extended periods of uncertainty faced by asylum seekers in the UK and the NRPF condition already contribute to poor health. Increasing the uncertainty under which people who have fled violence and trauma live will only increase their psychological distress, with the potential to create or compound underlying physical conditions linked to chronic stress, anxiety and depression."*<sup>39</sup>

**63.** Mae tystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod y diffiniad o 'blentyn' o ran pobl sydd wedi wynebu trawma yn gymhleth ac mae'n bosibl nad yw'r pontio o wasanaethau iechyd meddwl plant i oedolion yn adlewyrchu cyrhaeddiad cymdeithasol, emosiynol ac addysgol yr unigolyn hwnnw:

*"It is simply not clear cut in terms of the experience of these young people to define some as a child one day and an adult the next."*<sup>40</sup>

**64.** Mae hefyd yn awgrymu nad yw'r Bil yn ei gwneud yn glir sut bydd iechyd meddwl a llesiant plant yn cael eu hamddiffyn yn ystod y broses asesu, gan dynnu sylw at ddirywiad meddwl, hunan-niweidio a syniadaeth hunanladdol pobl ifanc sy'n cael eu gweld gan gydweithwyr clinigol.

<sup>38</sup> LCM NBB 01: Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

<sup>39</sup> LCM NBB 02: BMA Cymru

<sup>40</sup> LCM NBB 10: Conffederasiwn GIG Cymru

## Ein barn ni

**65.** Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y gallai'r cynigion ar gyfer cynnal asesiadau oedran a nodir yn y Bil gael effaith ddofn ar iechyd meddwl a llesiant y rhai dan sylw, a allai fod wedi profi trawma sylweddol yn eu bywydau'n barod.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol roi sicrwydd y bydd cymorth iechyd meddwl a llesiant priodol ar gael i bobl yr effeithir arnynt, yn sgil defnyddio dulliau gwyddonol ar gyfer asesu oedran, pe defnyddir dulliau o'r fath yng Nghymru.

## Mynediad at wasanaethau eraill

**66.** Amlygodd tystiolaeth EYST Cymru yr effaith bosibl ar wasanaethau eraill, os bydd y GIG yn gyfrifol am agweddau ar yr asesiadau oedran. Yn yr un modd, nododd Conffederasiwn GIG Cymru fod rhai asesiadau oedran a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref wedi bod yn destun anghydfod, gydag asesiad oedran anghywir yn arwain at oedi cyn i'r unigolyn allu cael mynediad at y gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen arno:

*"This has implications for NHS resources as the opportunity to avoid escalation and more resource-intensive intervention is required to protect and improve the mental health of those who are age-disputed. Age assessment must then lead to a rapid and accurate decision so the age-disputed person can begin the process of integration."<sup>41</sup>*

**67.** Clywsom bryderon hefyd ynghylch y cynnydd posibl yn nifer y ceiswyr lloches sy'n cael eu rhoi mewn llety anaddas lle nad oedd ganddynt fynediad at asesiad iechyd priodol neu sgrinio ar gyfer materion iechyd meddwl yn ogystal â phroblemau iechyd corfforol:

*"The continued focus on the legitimacy and whether an individual is deserving of compassion and support on account of their age is a damaging and dehumanising position that values the life of one person over another. This has implications for public health in terms of protecting and improving health at the population level and system leadership of health services who are trying to support and help all members of the community."<sup>42</sup>*

---

<sup>41</sup> LCM NBB 09: EYST Cymru

<sup>42</sup> LCM NBB 10: Conffederasiwn GIG Cymru

---

## Ein barn ni

**68.** Rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid am y goblygiadau posibl i unigolion nad ydynt yn gallu cael y gwasanaethau cywir, neu y mae oedi o ran cael mynediad atynt. Rydym hefyd yn cydnabod yr effaith bosibl ar adnoddau'r GIG os na ellir cyflawni ymyriadau cynnar, gan arwain at uwchgyfeirio a'r angen am ymyriadau sy'n defnyddio mwy o adnoddau.

## Y goblygiadau o ran cost i awdurdodau lleol a'r GIG

**69.** Nodir mewn tystiolaeth gan NYAS Cymru bod awdurdodau lleol yn cymryd cyfrifoldeb rhianta corfforaethol yn awtomatig dros blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, ni waeth a oes dadl ynghylch eu hoedran ar y pryd, ac nid yw gweithdrefnau mewnwithiol neu drawmatig o bosibl yn gydnaws â rôl rhiant corfforaethol. Mae'n dweud bod gwrthdaro tebyg yn bodoli yn achos cydweithwyr yn y GIG, ac mae NYAS Cymru wedi bod yn ymgyrchu dros egwyddor 'peidio â gwneud niwed' sy'n ymestyn ar draws asiantaethau i gydnabod a lleihau'r tebygolrwydd o drawma neu beri trawma o'r newydd i bobl ifanc gyda rhai polisïau a phenderfyniadau.

**70.** Mynegodd RCN Cymru bryder y gallai newidiadau posibl i asesiadau oedran ar lefel y Deyrnas Unedig roi nyrsys cofrestredig mewn sefyllfa sy'n groes i'w gofynion proffesiynol o dan God y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i weithredu bob amser er lles gorau pobl, ac i ymarfer yn unol â hynny bob amser ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael:

*"Nurses are non-judgemental and follow an evidence-base approach to ask them to do otherwise would challenge their profession. Furthermore refugee or asylum seeker without recourse to public funds are amongst the most vulnerable people in society and registrants will bear some emotional burden for these decisions."<sup>43</sup>*

**71.** Codwyd pryderon hefyd ynghylch gallu darparwyr gofal iechyd i feithrin ymddiriedaeth yn eu perthynas â phlant sydd ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches os oes angen i'r GIG gynnal unrhyw elfen o'r asesiad oedran. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthym fod ymddiriedaeth yn y berthynas rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol a chleifion yn ffactor allweddol o ran galluogi mynediad at iechyd:

*"The Health Experiences of Asylum Seekers and Refugees in Wales (HEAR) report (PHW & Swansea University, 2019)<sup>44</sup> found that challenges to building trust between*

<sup>43</sup> LCM NBB 12: Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

<sup>44</sup> The Health Experiences of Asylum Seekers and Refugees in Wales: Mawrth 2019

*health professionals and people seeking sanctuary included suspicion by patients that health professionals might contact immigration authorities.*

*This will be entrenched if health professionals are part of an age assessment process overseen by the Home Office. Lack of trusting relationships will further encourage hesitancy in seeking healthcare or public health interventions such as vaccinations."<sup>45</sup>*

**72.** Awgrymodd y byddai cynnwys y GIG mewn asesiadau oedran, sydd ag elfen o farn yn ôl eu diffiniad, yn wrthgynhyrchiol.

**73.** Yn nhystiolaeth EYST Cymru codwyd pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar lesiant meddyliol ac emosïynol staff sy'n gorfod cynnal yr asesiadau oedran, a holwyd a fyddent yn cael hyfforddiant priodol.<sup>46</sup>

**74.** Cododd Conffederasiwn GIG Cymru bryderon tebyg ynghylch a fyddai staff y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n foeseogol i gymryd rhan oherwydd ei bod yn bosibl na fyddai asesiad oedran er lles gorau'r plentyn, a byddai hynny'n mynd yn groes i'r egwyddor 'Peidio â Niweidio'. Roedd yn cwestiynu a fyddai Bwrdd Iechyd yn mynd yn groes i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn drwy 'ei gwneud yn ofynnol' i unigolyn ifanc gydymffurfio â phroffion ymwithiol cyn gallu cyrchu gwasanaethau, a dywedodd y byddai Byrddau Iechyd ac awdurdodau lleol angen canllawiau clir ar y cyfrifoldebau i blant a phobl ifanc, waeth beth fo eu statws.<sup>47</sup>

**75.** Yn ei llythyr dyddiedig 3 Chwefror 2022, mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn dweud nad yw'n glir a fydd disgwyl i gyrff GIG Cymru gynnal yr asesiad 'dulliau gwyddonol' ynteu a fydd hwn yn cael ei roi ar gontract allanol i ddarparwyr iechyd preifat:

*"If the NHS in Wales is expected to provide these assessments, this would place additional workload onto health boards who are already under significant pressure and remain severely impacted by the pandemic."<sup>48</sup>*

**76.** Tynnodd sylw hefyd at y posibilrwydd o wrthdaro rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol, y Bwrdd Cenedlaethol Asesu Oedran ac awdurdodau lleol eraill lle nad yw gweithwyr iechyd proffesiynol o blaid defnyddio 'dulliau gwyddonol'.

---

<sup>45</sup> LCM NBB 06: Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>46</sup> LCM NBB: 09: EYST Cymru

<sup>47</sup> LCM NBB 10: Conffederasiwn GIG Cymru

<sup>48</sup> Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: 3 Chwefror 2022

## Ein barn ni

**77.** Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol ynghylch gorfod cynnal prosesau asesu oedran sy'n gwrthdaro'n uniongyrchol â'u moeseg broffesiynol er mwyn gweithredu er lles gorau'r unigolyn. Yn ogystal â rhoi gweithwyr proffesiynol o'r fath mewn sefyllfa anodd, rydym yn nodi bod rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y gallai goblygiadau fod o ran llesiant gweithwyr iechyd proffesiynol eu hunain, yn ogystal ag effeithio ar eu gallu i feithrin ymddiriedaeth gydag unigolyn ifanc sydd angen cymorth. At hynny, rydym yn pryderu am y galwadau ychwanegol posibl y bydd cynnal profion asesu oedran yn eu cael ar weithlu sydd eisoes dan bwysau.

## 5. Goblygiadau ariannol

**78.** Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol nodir nad yw'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn darparu unrhyw wybodaeth am y costau ariannol a osodir gan y cymalau asesu oedran, ac ychwanegir:

*"Fodd bynnag, yng ngoleuni'r "dulliau gwyddonol" a ragwelir a fyddai'n gofyn am offer gofal iechyd a gweithwyr gofal iechyd, byddai costau sylweddol yn cael eu rhoi ar awdurdodau lleol yng Nghymru a / neu gyrff iechyd yng Nghymru, gan y cymalau hyn a'r rheoliadau a wneir yn unol â hwy".<sup>49</sup>*

**79.** Yn ei llythyr dyddiedig 3 Chwefror 2022, mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cadarnhau nad yw'r asesiad effaith a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref yn sôn am oblygiadau ariannol y Bil hwn. Fodd bynnag, mae'n dweud y bydd goblygiadau ariannol amlwg mewn perthynas â'r defnydd arfaethedig o 'ddulliau gwyddonol' i asesu oedran:

*"It is presumed this will only be done within a health setting, either commissioned from private healthcare or within the NHS. This could have direct costs for local authorities and consequential impacts on health service capacity."<sup>50</sup>*

**80.** Gan dynnu sylw at y posibilrwydd o wrthdaro rhwng barn swyddogion gwasanaethau cymdeithasol a allai fod o'r farn bod unigolyn yn blentyn ag anghenion gofal a chymorth a swyddogion y Swyddfa Gartref sydd o'r farn bod yr unigolyn yn oedolyn, nododd:

<sup>49</sup> *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau*

<sup>50</sup> Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: 3 Chwefror 2022

*"This conflict would have financial consequences for the local authority who would be obligated to provide care and support if the 2014 Act assessments found this to be required but without the funding which the Home Office would normally provide to local authorities looking after unaccompanied asylum seeking children."<sup>51</sup>*

**81.** Mae'r Gweinidog yn awgrymu bod her gyfreithiol hir a chostus yn debygol, ac mae'n dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio rhagor o wybodaeth am y goblygiadau ariannol gan y Swyddfa Gartref os caiff y Bil ei basio.

### **Ein barn ni**

**82.** Rydym yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru ei bod yn anochel y bydd goblygiadau ariannol i awdurdodau lleol a chyrrff GIG Cymru os caiff y Bil hwn ei basio.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ofyn am sicrwydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd y goblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Bil yn cael eu diwallu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn unol â'r Datganiad o Bolisi Ariannu.

## **6. Proses a threfn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol**

### **Amserlen craffu**

**83.** Mae Rheol Sefydlog 29.4 yn darparu bod yn rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at bwyllgor neu bwyllgorau i graffu arnynt fel arfer, a rhaid iddo sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer ystyried a chyflwyno adroddiadau. Ar 7 Rhagfyr 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau oedd 10 Chwefror 2022. Cyfeiriwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 14 Rhagfyr. Er bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn caniatáu'r dyraniad lleiaf o chwe wythnos eistedd, cynhaliwyd ein cyfarfod pwyllgor diwethaf a drefnwyd ar gyfer tymor yr hydref ar 2 Rhagfyr, felly ni chawsom gyfle i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol tan 13 Ionawr 2022. Cyfyngodd hyn yn sylweddol ar yr amser a oedd ar gael i ni gasglu tystiolaeth gan randdeiliaid; rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhanddeiliaid hynny a lwyddodd i ymateb i'n ceisiadau am dystiolaeth.

---

<sup>51</sup> Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: 3 Chwefror 2022



**84.** Yr hyn nad yw'n glir yw pam na osododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ym mis Gorffennaf mewn perthynas â'r 'cymal dalfan' sy'n ymwneud ag asesu oedran. Byddai hyn wedi rhoi mwy o amser i'r Senedd ymchwilio i'r materion, hyd yn oed pe byddai angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol wedyn ar ôl i'r Bil gael ei ddiwygio.

**85.** Fel y dywedwyd yn flaenorol, fe wnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ar 6 Ionawr 2022<sup>52</sup> i ofyn am estyniad i'r terfyn amser ar gyfer adrodd, ar y sail nad oedd Llywodraeth Cymru, bryd hynny, wedi nodi pryd y byddai'n cyflwyno dadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, ac na fyddai'r amser cyfarfod sydd ar gael i ni yn amserlen y pwyllgor fel arall yn darparu digon o gyfleoedd i ni geisio ac ystyried tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru a chan randdeiliaid. Cytunodd y Pwyllgor Busnes â'n cais, ac ymestynnwyd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad i 17 Chwefror 2022.<sup>53</sup> Fodd bynnag, yn dilyn hysbysiad gan Lywodraeth Cymru ar 25 Ionawr ei bod yn bwriadu trefnu dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau diwygiedig ar gyfer adrodd, sef 15 Chwefror.<sup>54</sup>

## Ein barn ni

**86.** Mae gennym bryderon ynghylch y defnydd cynyddol o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol fel mecanwaith ar gyfer deddfu ar faterion sydd wedi eu datganoli i Gymru. Mae'r dull hwn nid yn unig yn cyfyngu ar allu pwyllgorau'r Senedd i gynnal gwaith craffu ystyrion neu fanwl ar y goblygiadau posibl a allai ddeillio o'r cyd-destun polisi, deddfwriaethol a gweithredol penodol yng Nghymru, ond mae perygl iddo danseilio rôl y Senedd fel corff deddfu sylfaenol mewn meysydd cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig. Gan hynny, nid yw'n cynrychioli dull optimaidd o ddeddfu.

**87.** Rydym wedi codi pryderon yn flaenorol am yr amser sydd ar gael ar gyfer craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae'r amserlenni tynn yn cyfyngu'n ddifrifol ar y potensial i gasglu tystiolaeth gan randdeiliaid i lywio ein hystyriaeth o'r materion pwysig hyn; roedd y terfyn amser yn golygu ein bod ni wedi gorfod cyfyngu hyn eto i dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn. Mae amserlenni o'r fath hefyd yn rhoi pwysau sylweddol ar ein rhanddeiliaid, ar adeg pan fo'r sector iechyd a gofal cymdeithasol eisoes yn gweithredu o dan amgylchiadau eithriadol o anodd.

---

<sup>52</sup> Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Pwyllgor Busnes: 6 Ionawr 2022

<sup>53</sup> Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Ionawr 2022

<sup>54</sup> Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: 25 Ionawr 2022

**88.** Awgrymir yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal,<sup>55</sup> fel mater o drefn, y dylid neilltuo'r cyfnod hwyaf posibl o amser ar gyfer craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ac mai dim ond pan fydd amgylchiadau'n ei gwneud hi'n amhosibl neilltuo cyfnodau craffu a therfynau amser adrodd hirach y dylid defnyddio'r dyraniad lleiaf o chwe wythnos eistedd.

**89.** Nid yw'n glir i ba raddau mae'r Pwyllgor Busnes yn ystyried amserlen y pwyllgorau wrth bennu dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. Rydym wedi gorfod gofyn am estyniadau i'r dyddiadau cau ar gyfer dau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol lle'r oedd y dyddiadau cau gwreiddiol wedi eu pennu ar gyfer dyddiadau pan oedd y pwyllgor yn cynnal cyfarfodydd, a fyddai wedi cyfyngu'n sylweddol ar yr amser a oedd ar gael i ni gasglu a thrafod tystiolaeth cyn cyflwyno adroddiad. Rydym yn ddiolchgar bod ein ceisiadau wedi cael eu cymeradwyo. Serch hynny, nid yw'r ansicrwydd cychwynol sy'n bodoli ynghylch yr amser sydd ar gael i ni yn helpu'r broses o gynllunio ein gwaith craffu, ac mae'n cymryd amser i ddatrys sefyllfa weinyddol o'r fath.

**90.** Fel rhan o'n hymateb i adolygiad y Pwyllgor Busnes o amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau, rydym wedi argymhell, wrth bennu'r terfynau amser adrodd ar gyfer craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, bod y Pwyllgor Busnes yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r rhyngweithio rhwng terfynau amser adrodd ac amserlenni pwyllgorau. Os yw'r amserlen fesul pythefnos gyfredol yn cael ei chadw, dylai'r Pwyllgor Busnes, cyn belled ag y bo modd, osgoi pennu dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn ystod yr wythnosau pan fo'r pwyllgor perthnasol yn cyfarfod.

---

<sup>55</sup> [Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal](#)